# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

24.10.24




## Gair gan y Pennaeth – Headteacher's greeting

Diolch yn sicr yw gair pwysicaf yr wythnos hon! Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi Dathliad Cynhaeaf yr ysgol yn y capel ar ddydd Mawrth. Fe ddywedaf eto pa mor arbennig oedd gallu dod ynghyd fel cymuned i ddathlu ac i ddiolch am bob peth sydd gennym. Gobeithiwn i chi fwynhau'r achlysur cymaint ac y gwnaethom ni. Fe serennodd y disgyblion yn sicr – da iawn chi bob un!

Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd at gasgliad yr ysgol i Banc Bwyd Caerdydd. Mae pawb wedi bod yn hynod hael. Diolch i'r gymdeithas rhieni ac athrawon (GRhA) am drefnu toesion (hynod blasus!) i ni heddiw – a diolch i bawb a gyfrannodd.

Cawsom gyfle heddiw i gyhoeddi enwau'r disgyblion a fydd yn cynrychioli llais ein plant i gyd ar y Cyngor Ysgol eleni. Mae yma griw brwd a gweithgar ac rwy'n sicr y bydd yma newid ar waith! Fe adroddwn yn ôl eto i chi ar ddatblygiadau'r Cyngor Ysgol - diolch iddyn nhw am eu hegni a'u gwaith.

Wrth i ni ddod at wyliau hanner tymor, fe edrychwn yn ôl dros hanner tymor hynod brysur eto yma yn Ysgol Gwaelod y Garth. Rydym yn hynod ddiolchgar am bob cefnogaeth sydd wedi bod ac am bob profiad yr ydym wedi gallu cynnig i'n disgyblion. Hoffwn ddiolch i'r staff am waith diflino a rhagorol eto dros yr hanner tymor. Ac ar ran holl staff yr ysgol, diolch i chi am bob cefnogaeth. Dymunwn gwyliau dedwydd i bob teulu yng nghymuned ein hysgol arbennig – ymlaciwch a mwynhewch! ♥

- - - - -

Diolch is definitely the most important word of this week! Thank you to everyone who came to support the school's Harvest Celebration in the chapel on Tuesday. I will say again how special it was to be able to come together as a community to celebrate and to give thanks for all that we have. We hope you enjoyed the occasion so much and we did. The pupils were certainly the stars of the day– da iawn chi bob un!

Diolch also to everyone who contributed to the our collection for Cardiff Foodbank. You have all been so generous. Diolch to PTA for organising (super tasty!) doughnuts for us today – and diolch to everyone who contributed.

We had the opportunity today to announce the names of the pupils who will represent the voice of all our children on this year's School Council. These are a keen and hard-working crew and I have no doubt that they will be force of change! We will report back again on the developments of the School Council – Diolch to them for their energy and work.

As we approach half term break, we look back over an incredibly busy half term again here at Ysgol Gwaelod y Garth. We are extremely grateful for the huge support we have received and for every experience we have been able to offer our pupils. I would like say diolch to the staff for their tireless and outstanding work again over the half term. And on behalf of all our staff, diolch to you for all the support. We wish every family in our special school community a dream vacation – relax and enjoy! ♥

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**25.10.24**
**Gwener / Friday**
Diwrnod HMS
*INSET day*

**28.10.24 – 1.11.24**
Gwyliau Hanner Tymor
Half Term Holiday

**05.11.24**
Pêl-droed Urdd B5/6 Merched
Y5/6 Girls Urdd Football

**06.11.24**
Brechiad Ffliw (D-B6)
Flu Imunisations (Rec – Y6)

**7.11.24 @ 5.30**
Noson Agored Plasmawr (B6)
Plasmawr Open Evening (Y6)

**15.11.24**
Plant Mewn Angen
Children in Need

---

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.

Our live calendar is available to download on our school website's homepage.

## Ysgol Gwaelod y Garth

# Noson Agored Derbyn
# Reception Open Evening

**Dydd Mawrth / Tuesday 19.11.24 @ 5pm**




## Croeso cynnes i bawb!

**Dewch i weld dosbarth derbyn Ysgol Gwaelod y Garth.**

Cyfle anffurfiol i weld yr ysgol, i holi cwestiynau ac i gyfarfod â staff a theuluoedd eraill.

Nid oes angen trefnu ymlaen llaw ond croeso i chi gysylltu â ni.

**029 2081 0489**

ysgolgwaelodygarth@caerdydd.gov.uk

@gwaelod

## A warm welcome to all!

**Come and see Ysgol Gwaelod y Garth's reception class.**

An informal opportunity to see the school, ask questions and meet staff and other families.

No need to arrange in advance, but feel free to contact us.

**029 2081 0489**

ysgolgwaelodygarth@caerdydd.gov.uk

@gwaelod

Cyfle cyffrous i deuluoedd sy'n dymuno ymuno â'n cymuned ysgol yn y dyfodol gyfle i ymweld â ni i weld ein hysgol, cwrdd â staff a gofyn cwestiynau. Rhannwch ymhell ac agos gyda ffrindiau a theuluoedd a allai fod â phlant yn dechrau Dosbarth Derbyn ym mis **Medi 2025** neu yn y dyfodol.

An exciting opportunity for families wishing to join our school community in the future an opportunity to visit us to see our school, meet staff and ask questions. Please share far and wide with friends and families who may have children entering Reception in **September 2025** or in the future.


Monthly Community Litter Pick
Last Saturday of the Month
Meet at Pentyrch Shops
at 10am
A group of residents are volunteering to litter pick in Pentyrch on the last Saturday of each month. If you'd like to join in and help, please contact PCC during the week to collect the equipment..
Equipment
If you would like to litter pick in your village, you can collect bags and borrow grabbers and hoops from Pentyrch Community Council. The office is open Mon-Fri 10am-12pm.
office@pentyrch.cc / 02920 891417